**Ken Skates AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: OAQ(5)0057(EI)

Aelodau'r Cynulliad

25 Tachwedd 2016

Annwyl Aelod,

Yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ar 9 Tachwedd 2016, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth a Chastell Rhuthun.

Ers mis Ebrill 2013, mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth wedi cynnig cyllid i 42 o fusnesau yn y Gogledd a oedd yn werth cyfanswm o £7.8 miliwn, gan gynnwys gwerth £10.8 miliwn o fuddsoddiad mewn 474 o swyddi. Mae'r prosiectau diweddar yn cynnwys cymorth ar gyfer Surf Snowdonia, Zip World, a Dylans ym Morannedd, Criccieth. Mae buddsoddi mewn cynnyrch o ansawdd wedi cael blaenoriaeth wrth adfywio'r Gogledd a'i droi'n un o gyrchfannau gorau'r byd. Cafodd hynny ei gadarnhau gan Lonely Planet mewn rhestr a luniwyd ar gyfer 2017. Mae gwestai o ansawdd yn rhan allweddol o'r stori honno ac mae'r buddsoddiad yng Nghastell Rhuthun yn rhan o'r stori honno hefyd.

Cafodd Ruthin Castle Ltd gyllid gwerth £500,000 i gynorthwyo gydag amrywiaeth o welliannau, gan gynnwys sba newydd. Cafodd y gwaith ei orffen yn ôl y disgwyl ac enillodd y gwesty'r radd 4 Seren a dargedwyd. Mae creu gwestai uwch eu hansawdd sydd ag o leiaf gradd 4 seren yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol yn y Sector Twristiaeth, a gwnaeth buddsoddiad y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth helpu i sicrhau hynny. Mae'r gwesty'n parhau'n un  4 Seren heddiw.

Er y nodwyd bod risg uwch ynghlwm wrth y prosiect hwn, cafodd hynny ei liniaru gan y nod o greu gwesty a sba mewn lleoliad hanesyddol unigryw. Roedd y datblygiad hwn yn hanfodol i ddyfodol y gwesty hwn ac er bod y cynnydd mewn costau a'r oedi wedi effeithio ar y model busnes gan olygu bod y busnes wedi mynd i ddwylo'r Gweinyddwyr, mae wedi aros ar agor drwy gydol y cyfnod hwnnw. Bellach, mae'n fusnes twristiaeth hyfyw sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r economi twristiaeth a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Penderfynwyd ar y buddsoddiad gwerth £500,000 ar adeg pan roddid cyllid ar ffurf grantiau. Cafodd y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth ei adolygu yn 2016, ac yn sgil hynny, mae pob cynnig bellach yn cynnwys cyfuniad o fenthyciadau a chyllid grant. Mae hynny'n sicrhau bod yr hyn a gynigir yn fwy cadarn a chynaliadwy. Hefyd, mae isafswm y cymorth a gynigir wedi codi i £25,000 (oni bai ei fod yn brosiect eithriadol) a hynny er mwyn sicrhau allbynnau mwy sylweddol, gyda phwyslais penodol ar adeiladu cyrchfannau a chreu cynnyrch sy'n newid meddylfryd pobl.

O ran diwydrwydd dyladwy, mae yna hefyd wahaniaethau o ran y broses erbyn hyn ac mae hynny wedi ychwanegu gwerth at achosion sy'n rhai anodd a heriol. Er enghraifft, caiff pob arfarniad ei adolygu'n fanwl gan Banel Buddsoddi (nad oedd hwnnw wedi'i sefydlu pan benderfynwyd ar achos Castell Rhuthun) a phan gaiff cynnig ei wneud, rhoddir copi ysgrifenedig o unrhyw argymhellion a wneir gan y Panel hwnnw. Mae risg yn ganolog i'r broses arfarnu a chaiff ei mesur ar ddechrau'r broses fuddsoddi; dyna sy'n pennu pa mor drwyadl y bydd y broses diwydrwydd dyladwy ym mhob cam wedyn. Mae hefyd yn nodi mesurau lliniaru a allai helpu i leihau lefel y risg.

O ran cyllid twristiaeth ranbarthol, mae Croeso Cymru yn rheoli dau gynllun cyllido. Yn gyntaf, mae'n gyfrifol am y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol:

https://businesswales.gov.wales/dmwales/cy/support/cronfa-ymgysylltu-twristiaeth-ranbarthol

Mae'r gronfa hon wedi'i hanelu at brosiectau sy'n cynorthwyo cyrchfannau ledled Cymru i hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig, o ansawdd uchel drwy wireddu eu cynlluniau rheoli cyrchfannau; a phrosiectau sy'n galluogi cyrchfannau i sicrhau'r manteision mwyaf posibl drwy ddilyn dull Croeso Cymru o weithredu ar sail blynyddoedd thematig a arweinir gan y cynnyrch.

Yn ail, y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth:

https://businesswales.gov.wales/dmwales/cy/support/cronfa-arloesi-cynnyrch-twristiaeth-tpif.

Nod y gronfa hon yw annog mwy o gydweithio rhwng consortia, partneriaethau a grwpiau twristiaeth er mwyn datblygu a gwella'r cynnyrch a gynigir i ymwelwyr, er lles y sector twristiaeth, cymunedau lleol, a lawn cyn bwysiced, i helpu'r economi dwristiaeth i dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

Mewn perthynas â rheoli cyrchfannau, mae gan y ddau gynllun hyn rôl allweddol o ran cynnyrch lleol a chreu lleoedd. Maent yn caniatáu i gymunedau twristiaeth lleol gyflwyno syniadau i sicrhau bod ymwelwyr yn cael y boddhad mwyaf posibl ac er mwyn ysgogi cefnogaeth leol a buddsoddiad ar gyfer twristiaeth. Drwy Croeso Cymru, rydym yn annog awdurdodau lleol, y sector preifat a'r trydydd sector i gydweithio er mwyn ystyried prosiectau newydd, beiddgar, creadigol ac arloesol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am syniadau mawr, prosiectau a allai wneud gwir wahaniaeth gan sicrhau bod Cymru'n gyrchfan y mae pobl wir eisiau ymweld â hi a bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny. Fel y nodwyd, mae syniadau sy'n cyd-fynd yn agos â dull Croeso Cymru o weithredu ar sail blwyddyn thematig –Blwyddyn y Chwedlau 2017 a Blwyddyn y Môr 2018 – yn brif ystyriaethau ar gyfer arfarnu prosiectau llwyddiannus yn 2017/2018.

Bydd y broses ymgeisio ar gyfer y ddau gynllun yn cael ei lansio maes o law. Os oes unrhyw etholwyr yn etholaethau'r Aelodau a hoffai drafod syniadau ar gyfer prosiectau neu os ydynt eisiau manylion pellach am gyllido, dylech eu cyfeirio at dimau twristiaeth rhanbarthol Llywodraeth Cymru:

| | |
|---|---|
| Y Gogledd - | Andrew Forfar - AndrewWallace.Forfar@cymru.gsi.gov.uk |
| Y Canolbarth - | Helen Jones - Helen.Jones28@cymru.gsi.gov.uk<br>Gwawr Price - Gwawr.Price3@cymru.gsi.gov.uk |
| Y De-orllewin - | Philip Abraham - Philip.Abraham@cymru.gsi.gov.uk |
| Y De-ddwyrain - | Viv Wilfred - Vivienne.Wilfred@cymru.gsi.gov.uk |

Yn gywir,



**Ken Skates AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure